

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 14

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Doniol!	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap cyfle i wneud cynllun o dir yr ysgol ac i cynllunio sŵ arno <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i feddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynllunio model cyfle i wneud model a'i werthuso <p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod symiau o arian wrth gyfrifo pris cŵn poeth a byrgers
Cerddorol?	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd penodol ar fap <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am Dresden <p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i werthuso'r "gerddoriaeth" mae'r tŷ yn ei chreu, yn ogystal â cherddoriaeth sy'n cael ei chreu gan eitemau pob dydd cyfle i gyfansoddi cerddoriaeth drwy ddefnyddio eitemau pob dydd
Bach!	<p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i greu ffilm fer yn Gymraeg
Ffasiynol!	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod prisiau, gan ystyried disgownt a chanran <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ffilmio'i gilydd yn gwerthu eitem "ar sianel deledu"
Hardd!	<p>Celf a Dylunio</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfleoedd i drin a thrafod darnau o waith celf sydd wedi eu creu o ddeunyddiau sydd wedi eu hailgylchu cyfle i ganolbwyntio ar artistiaid penodol, e.e. Anthony Heywood cyfle i gynllunio darn o waith celf gan ailgylchu deunyddiau priodol <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am gelf ac artistiad <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i feddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynllunio model, gan ailgylchu deunyddiau priodol cyfle i wneud model a'i werthuso
Blasus?	<p>Daearyddiaeth</p>

	<ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd ar fap o'r byd ac i ystyried bwydydd o wahanol wledydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ddylunio bwydlenni cyfle i chwilio am luniau Andy Warhol ac am wybodaeth amdano Dylunio a Thechnoleg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wneud cawl iach Celf a Dylunio <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod gwaith yr artist Andy Warhol cyfle i greu llun, gan ddefnyddio eitemau pob dydd
Caredig!	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth
Cryf?	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drosi o stôns i gilogramau (ac i bwysau os dymunir)
Diddorol!	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd ar fap Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth / lluniau / ffilm ar y we cyfle i greu a ffilmio eitem ar gyfer rhaglen gylchgrawn trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau – paratoi darn ar gyfer gwefan
Drud!	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> creu a defnyddio holiadur, gwneud siartiau cylch / graffiau i egluro'r canfyddiadau; egluro'r siartiau cylch / graffiau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod gwahanol fathau o ffonau a'r dechnoleg sy'n gysylltiedig â nhw
Gwahanol!	Celf a Dylunio <ul style="list-style-type: none"> cyfleoedd i drin a thrafod darnau o waith celf sydd wedi eu creu mewn gwahanol arddulliau cyfle i ganolbwyntio ar ddarn o waith penodol, sef y Mona Lisa cyfle i gynllunio darn o waith celf sy'n efelychu'r Mona Lisa Dylunio a Thechnoleg <ul style="list-style-type: none"> Gellid gofyn i'r disgyblion gynllunio a chreu gwrthrych sy'n cynnwys llun o'r Mona Lisa, e.e. maged ar gyfer oergell. Hanes <ul style="list-style-type: none"> Gellid trafod Leonardo da Vinci, os dymunir. Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> defnyddio rhifau mawr trosi o ddoleri i bunnoedd cymharu prisiau
Cyflym!	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd ar fap Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> chwilio am wybodaeth / lluniau ar y we trosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau – paratoi hysbyseb am feic

Y cwricwlwm Cymreig

Yn y rhifyn hwn, cyfeirir at Sol Cinema sydd wedi ei leoli yn Ne Cymru ac at draciau rasio i lawr rhiw yng Nghymru. Mae cyfle hefyd i astudio gwaith arlunwyr o Gymru.

ABCh

Mae'r darn **Cyflym!** yn cynnig cyfle i drafod diogelwch personol wrth gymryd rhan mewn campau eithafol.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]